

**RAS Ffordd 10 CILOMEDR
CAERFFILI
DYDD SUL MAI 14 2023**

**GORCHYMYN CAU Ffordd DROS DRO
LLEIHAW TERFYN CYFLYMDER DROS DRO
TRAFFIG UNFFORDD DROS DRO**

Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, rhoddaf rybudd o dan adran 14(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 o orchymyn cau'r ffordd, lleihau terfyn cyflymder a thraffig unffordd canlynol:

TRAFFIG UNFFORDD A THERFYN CYFLYMDER 20 MYA

Ni fydd unrhyw un yn caniatáu i unrhyw gerbyd fynd tua'r dwyrain ar hyd yr A468 o'r A469, Cylchfan Pwll-y-pant hyd at yr A468 Cylchfan Bedwas	9.00 am i 11.30 am
Ni chaiff unrhyw un fynd ar gyflymder sy'n uwch na 20 mya mewn cyfeiriad tua'r gorllewin o'r A468 Cylchfan Bedwas hyd at yr A469, Pwll-y-pant	9.00 am i 11.30 am
Ni chaiff unrhyw un fynd ar gyflymder sy'n uwch na 20 mya ar hyd Parc Lansbury Ffordd Ddosbarthu rhwng ei chyffyrdd â ffordd fynediad Dolydd Trefore a'r ffordd fynediad i ystâd Parc Lansbury	9.30 am i 12 canol dydd

GWAHARDD GYRRU

Ni fydd unrhyw un yn caniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darnau o ffyrdd canlynol ar yr amseroedd a nodir isod:

Y Twyn, Castle Street, White Street, Bartlett Street, Cardiff Road, Clive Street a Ludlow Street (bydd eithriad ar gyfer bysiau gwasanaeth ar ochr ddeheuol Castle Street o'r gyffordd â Bedwas Road yn system gylchu Picadili i'r gyffordd â Brynau Road)	8.30 am i 12 canol dydd
Heol Pontygwindy	9.30 am i 10.45 am
Ffordd Ddosbarthu Parc Lansbury ac eithrio rhwng y cyffyrdd â'r ffordd fynediad i Ddolydd Trefore a'r ffordd fynediad i ystâd Parc Lansbury Van Road hyd at y gyffordd â Cefn Carnau Lane.	9.30 am i 12 canol dydd
Crescent Road, Caerffili	6.00 am i 1.00 pm
Nantgarw Road rhwng cyffyrdd system gylchu Picadili i'r gyffordd â Crescent Road	9.00 am i 10.15 am
Bydd y gwaharddiad presennol ar yrru ac eithrio ar gyfer mynediad ar hyd Brynau Road yn cael ei ddiarddel ar gyfer y digwyddiad arbennig i alluogi cerbydau a bysiau i adael canol y dref.	9.00 am i 1.00 pm
Ystâd Bryncenydd – Mynediad ar gyfer preswylwyr yn unig	9.00 am i 12 canol dydd

GWAHARDD AROS A LLWYTHO

Ni chaiff unrhyw un achosi i unrhyw gerbyd aros neu lwytho/dadlwytho ar hyd y rhannau o'r ffyrdd canlynol yn ystod yr oriau a nodir isod:

Pontygwindy Road, Ffordd Ddosbarthu Parc Lansbury, Van Road hyd at y gyffordd â Cefn Carnau Lane, Y Twyn, Castle Street, White Street, Bartlett Street, Cardiff Road, Clive Street a Ludlow Street	8.30 am i 12.00 canol dydd
Crescent Road, Caerffili	6.00 am i 1.00 pm

RHESWM Er mwyn hwyluso Ras Ffordd 10 Cilomedr yn nhref Caerffili fel 'Digwyddiad Arbennig' ar y briffordd **MYNEDIAD/LLWYBRAU ERAILL A GWYBODAETH** Bydd mynediad i eiddo ond yn cael eu caniatáu i'r gwasanaethau brys. Gellir defnyddio'r A468, A469 a'r A470 fel llwybrau amgen. Bydd trwyddedau'n cael eu rhoi i breswylwyr ystadau Heol Trecastell a Bryncenydd i ganiatáu mynediad. Gellir cael gwybodaeth oddi wrth Adran Gyfathrebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - rhif ffôn 01443 864264 / 077680 95924 yn ystod oriau swyddfa arferol.

Llofnod:



Pennaeth Isadeiledd

12/05/2023
TM/23/805/AV

